

**CORONAFIRWS: CANLLAWIAU I ADDYSGU AR Y CAMPWS**

Medi 2021

Mae'r canlynol yn nodyn atgoffa i helpu staff darlithio wrth gynllunio i aildechrau addysgu ar y safle. Gellir gweld protocol dros dro ar gyfer cyfarfodydd yn y cnauld, megis cyfarfodydd goruchwyllo neu gyfarfodydd tiwtor personol, [yma hefyd](#).

**Cyn dod i'r Campws**

Rydym yn gofyn i'r holl staff a myfyrwyr fydd yn mynd ar y safle yn ystod mis Medi a mis Hydref gael prawf cyn cyrraedd am y tro cyntaf ac i gael profion LFD ddwywaith yr wythnos am o leiaf 28 diwrnod. Ar ôl hyn, rydym yn eich annog i gael prawf o leiaf unwaith yr wythnos.

- Gall staff a myfyrwyr gael citiau Hunan-Brawf Coronafirws (LFD) o ganolfannau ym mhob rhan o'r brifysgol, darllenwch y dudalen [Cwestiynau Cyffredin Staff am Covid](#) i gael manylion

**Profi, Olrhain a Diogelu**

Er mwyn helpu gydag olrhain cysylltiadau, rhaid cofnodi'r holl ddsbarthiadau, tiwtorialau, cyfarfodydd myfyrwyr a digwyddiadau Ysgolion yn yr Ap Cofrestru. Cofiwch ddewis y math cywir o sesiwn, a lle bo hynny'n berthnasol, defnyddiwch gyfeirnod y Grŵp Cyswllt. Mae rhagor o fanylion am yr Ap Cofrestru ar gael ar-lein trwy'r Bwletin Staff a chaiff ei gylchredeg i'r holl staff academiaidd.

**Maint yr Ystafelloedd a Chadw Pellter Cymdeithasol**

Mae'r holl ystafelloedd sydd wedi'u hamserlennu'n ganolog wedi cael eu hasesu ac mae'r nifer fwyaf o bobl a all fod ynddynt wedi eu nodi, gan roi ystyriaeth i gyfyngiadau o ran lle ac awyru. Gall y niferoedd hyn newid yn ystod y flwyddyn.

Gan fod y gofyniad a'r angen i gadw pellter cymdeithasol o o leiaf 2 fetr rhwng pobl wedi cael ei lacio, mae'r brifysgol wedi mabwysiadu dull lle sefydlir 'grwpiau cyswllt' bach ar gyfer myfyrwyr.



*Grwpiau Cyswllt mewn Rhesi*



*Grwpiau Cyswllt Bach*

### Dosbarthiadau o hyd at 30 o fyfyrwyr

Bydd y dosbarthiadau hyn yn cynnwys un Grŵp Cyswllt, gyda hyd at 30 o bobl (ynghyd â darlithydd). Nid oes rhaid i aelodau'r grwpiau cyswllt hyn gadw pellter cymdeithasol, ond bydd y man addysgu yn galluogi unigolion i leoli eu hunain oddi wrth bobl eraill os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylai'r staff academiaidd bob amser gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr a bydd cynllun yr ystafell a'i maint yn caniatáu hyn.

### Dosbarthiadau o 31 -100 o fyfyrwyr

Mae darlithfeydd ac ystafelloedd seminarau mwy o faint wedi cael eu trefnu ar gyfer y dosbarthiadau mawr hyn trwy nifer o 'Grwpiau Cyswllt' llai (gweler y cynlluniau uchod). Bydd pob grŵp yn cael rhif fel y gellir nodi'r cyfeirnod yn yr Ap Cofrestru. Gweler y canllawiau manwl am yr Ap Cofrestru i gael rhagor o fanylion.

Sylwch: mewn darlithfeydd, labordai ac ystafelloedd cyfrifiaduron mwy o faint, bydd rhai sgriniau persbecs, er enghraifft wrth y ddarllenfa ac ar rai meinciau yn y labordai, yn aros yn eu lle am y flwyddyn academiaidd hon, a dylid eu defnyddio ynghyd â chadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.

### **Gorchuddion Wyneb**

Mae polisi'r brifysgol ar orchuddion wyneb yn aros yr un fath ag yr oedd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020/21, ac felly mae'n rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob adeilad (gyda rhai eithriadau safonol). Anogir staff i wisgo gorchuddion wyneb ar gyfer darlithoedd, ond gallant eu tynnu i ddarlithio os oes mesurau lliniaru eraill ar waith (sgriniau Perspex, mwy na 2m o bellter o eraill ac ati). Gall ysgolion ddarparu masgiau wyneb gyda phaneli clir i staff sydd am eu defnyddio i ganiatáu gweld gwefusau ar gyfer myfyrwyr â nam clywedol.

Bydd y polisi ar orchuddion wyneb yn cael ei adolygu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

### **Awyru**

Mae'r Gwasanaethau Campws wedi asesu'r holl systemau awyru mecanyddol a'u haddasu lle bo angen. Mae unedau Puro Aer hefyd wedi'u gosod i sicrhau awyru da yn y darlithfeydd a'r ystafelloedd seminarau hynny lle nad oes systemau awyru mecanyddol.

- Lle bo uned hidlo HEPA wedi ei gosod yn yr ystafell, gwnewch yn siŵr ei bod wedi ei rhoi ymlaen a'i gadael ymlaen ar ôl i chi adael yr ystafell. Peidiwch ag addasu'r gosodiadau awyru a gwnewch yn siŵr eu bod yn dal ymlaen, a'ch bod yn gallu clywed eu bod yn gweithio.
- Lle bo hynny'n ymarferol ac yn bosibl, agorwch ffenestri mewn ystafelloedd addysgu neu gyfarfod i gynyddu'r awyru. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle nad oes system awyru fecanyddol mewn ystafell.
- Rhowch wybod i'r tîm cynnal a chadw am unrhyw hidlwyr aer sydd wedi torri trwy gysylltu â [maintenance@bangor.ac.uk](mailto:maintenance@bangor.ac.uk) / estyniad 2783



Sylwch, yn y rhan fwyaf o achosion, mae systemau aerdymeru wedi'u diffodd.

Yn ystod y flwyddyn bydd nifer o fonitorau Carbon Deuocsid hefyd yn cael eu gosod mewn ystafelloedd i werthuso perfformiad y trefniadau awyru. Bydd yr unedau hyn fel rheol yn gweithredu dros nifer o ddyddiau a bydd y data'n cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r cofnod presenoldeb, trwy'r data Ap Cofrestru. Defnyddir y canlyniadau i



werthuso a oes angen cymryd camau pellach i ddod ag awyr iach i mewn i'r ystafell.

### **Glanhau a Hylendid**

Ar gyfer darlithfeydd sydd wedi eu hamserlennu, dylai deunyddiau glanhau fel chwistrell diheintydd a rholyn o bapur glas fod ar gael yn yr ystafell i lanhau'r ddarllenfa. Os nad oes deunydd glanhau yno, gwnewch gais amdanynt i'r [Gwasanaethau Campws](#). Dylai hylif diheintio dwylo fod ar gael hefyd. Yn ogystal, bydd y Gwasanaethau Campws yn glanhau mwy ar fannau tramwy, yn cynnwys pwyntiau cyffwrdd allweddol e.e. coridorau, dyrnau drysau darlithfeydd, botymau lifftiau.

- Dylech annog myfyrwyr i hunan-lanhau manau y byddant yn eu cyffwrdd (e.e. breichiau cadeiriau, byrddau)
- Atgoffwch bawb sy'n bresennol i sicrhau hylendid dwylo da

### **Pwyntiau Pellach**

- Bydd dosbarthiadau fel rheol yn dechrau am 10 munud wedi ac yn gorffen am 10 munud i'r awr. Mae hyn er mwyn lleihau'r nifer sydd yn yr adeilad a'r tebygolrwydd o fod mewn cysylltiad agos â'i gilydd, ac i ganiatáu amser i'r trefniadau awyru newid a gwanedu'r aer.
- Mae rhai adeiladau'n dal i ddefnyddio system unffordd felly cadwch at yr holl farciau a sylwch mai dim ond un person ar y tro ddylai defnyddio'r lifftiau yn gyffredinol.
- Atgoffwch y myfyrwyr i beidio â mynd i ddosbarthiadau os oes ganddynt unrhyw symptomau o Covid-19.
- Atgoffwch y myfyrwyr i wneud profion LFD yn rheolaidd, ac o leiaf ddwywaith yr wythnos am y 28 diwrnod cyntaf.
- Os byddwch yn clywed y larwm tân, gadewch yr adeilad trwy'r allanfa agosaf, ac ewch i'r man ymgynnull. Bydd y staff diogelwch yn ymchwilio i achosion o ganu larymau tân ac yn rhoi gwybod i chi pan fydd hi'n ddiogel i ddychwelyd i'r adeilad.
- Mae Mannau Lloches yn parhau i fod yn weithredol ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio'r grisiau i adael yr adeilad
- Wrth fynd yn ôl i mewn i'r adeilad, gwisgwch eich gorchudd wyneb a defnyddio hylif diheintio dwylo.